UK Government
Llywodraeth y DU

# Cynllun Llywodraeth y DU i Gymru



Mai 2021

# Rhagair y Prif Weinidog



10 DOWNING STREET
LONDON SW1A 2AA

Nid oes amheuaeth y cafodd y dilledydd Fictoraidd, Pryce Pryce-Jones, fywyd rhyfeddol. Ar ôl cael ei eni a'i fagu ym mhentref bychan Llanllwchaearn yn yr hyn sy'n cael ei adnabod bellach fel Powys, aeth ymlaen i ddyfeisio'r sach cysgu, gwasanaethu fel Aelod Seneddol Ceidwadol a magu nid un ond dau bêl-droediwr rhyngwladol.

Ond mae ei waddol pwysicaf yn gysylltiedig â'i rôl fel hen-hen-hen dad-cu siopa ar-lein. Oherwydd yn ôl yn 1859, ar ôl adnabod potensial y rheilffordd newydd ei hagor yn Llanidloes a'r Drenewydd, dechreuodd Pryce-Jones gludo catalogau gwerthu yn gyntaf ac yna gwlân a gwlanenni gorau Sir Drefaldwyn i gwsmeriaid mor bell â'r Unol Daleithiau ac Awstralia, ac mor enwog â Florence Nightingale a'r Frenhines Fictoria. Wrth wneud hynny rhoddodd flas i'r byd o fanwerthu drwy'r post ar raddfa fawr a chreodd y templed a ddilynir hyd heddiw gan fasnachwyr rhithiol o bob siâp a maint, a'r arbenigedd y mae pawb ohonom yn dibynnu arno gymaint erbyn hyn.

Dengys stori Pryce-Jones yr hud a'r lledrith a all ddigwydd pan mae unigolion talentog gyda syniadau mawr yn cael eu paru â'r cyfle a seilwaith sy'n ofynnol i wireddu eu breuddwydion. Mae'n fformiwla sy'n dal i weithio heddiw ac yn un yr wyf am i bawb yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain elwa arni - dyna pam mae Llywodraeth y DU wedi llunio'r Cynllun cyntaf o'i fath hwn i Gymru. Yn union fel y darparodd y rhan helaethaf o economi'r DU yr adnoddau i gael pob un o'i rhannau cyfansoddol drwy elfennau gwaethaf y pandemig - a chaffael y brechlynnau a fydd yn y pen draw yn dod â'r cyfan i ben - bydd y cryfder hwnnw mewn niferoedd yn helpu Cymru i ddod yn fwy teg, gwyrdd a ffyniannus wrth i ni adeiladu'n ôl yn sgil y Coronafeirws. Drwy gydweithio, gallwn sicrhau cysylltiadau rhyngrwyd cynt, signalau ffôn symudol mwy dibynadwy, a chysylltiadau trafnidiaeth gwell yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig yn ehangach.

Gallwn greu swyddi medrus sy'n talu'n dda o Borthaethwy i Fachynlleth i Ferthyr Tudful. Gallwn helpu Cymru i chwarae ei rhan yn adeiladu economi sero net gyda phopeth o Ganolfan Hydrogen Caergybi i ffermydd gwynt arnofiol enfawr yn y Môr Celtaidd. A gall pawb ohonom wneud hyn wrth ehangu'r diwylliant balch a threftadaeth hanesyddol sy'n gwneud Cymru yn aelod mor unigryw o'n pedwarawd arbennig. Am gyfnod rhy hir, tociwyd adenydd y ddraig goch a gorlenwyd ei ffroenau, ond nid dim mwy. Gorau chwarae, cyd-chwarae.

Rydym bob amser wedi bod ar ein gorau pan ydym yn gweithio fel un Deyrnas Unedig ac mae'r cynllun hwn yn dangos sut y byddwn yn gwneud hynny, fel bod gan Pryce Pryce-Joneses heddiw bopeth sydd ei angen arnynt i gyrraedd eu potensial, a gall draig Cymru esgyn unwaith eto.

**Boris Johnson**
Y Prif Weinidog

# Rhagair y Gweinidog



## Dros y 12 mis diwethaf, mae'r DU wedi dod ynghyd i frwydro yn erbyn pandemig byd-eang na welwyd mo'i debyg yn yr oes sydd ohoni.

Cryfhawyd ein gallu i ymateb, diogelu bywydau a sicrhau ein dyfodol economaidd drwy bawb yn bod yn rhan o un Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, mae 466,300 o swyddi wedi cael eu cefnogi drwy'r cynllun ffyrlo a benthyciadau gwerth mwy na £2 biliwn wedi cael eu darparu i fusnesau. Gan ddwyn ynghyd ein capasiti gwyddonol a diwydiannol ar y cyd, rydym hefyd wedi cyflwyno rhaglen frechu o'r radd flaenaf sydd wedi rhoi llwybr i ni allan o'r cyfnod clo. Dengys y Cynllun hwn i Gymru ymrwymiad Llywodraeth y DU i bobl Cymru. Rwyf wedi siarad â busnesau, awdurdodau lleol, sefydliadau addysgol a phobl, a'u mewnwelediadau sy'n sail i'r Cynllun hwn. Mae'n awr yn amser edrych tua'r dyfodol - at gyfleoedd ac uchelgeisiau a fydd yn siapio ein dyfodol.

Ar adeg y Gyllideb, amlygodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i godi'r gwastad ar draws y DU i gyd, gan ymestyn cymorth ar draws pob un o'r pedair cenedl wrth i ni osod llwybr clir tuag at adferiad economaidd.


"Wrth i ni ddod allan o'r pandemig byd-eang, mae'n rhaid i ni ddechrau cymryd y camau cyntaf tuag at ein hadferiad. Mae'r Cynllun hwn i Gymru yn dwyn ynghyd rhaglen adfywio uchelgeisiol a fydd yn creu swyddi a ffyniant yn ein cymunedau lleol. O'r canolfannau gweithgynhyrchu yn y gogledd a'r de-ddwyrain, i'r cadarnleoedd gwledig a'n cymunedau arfordirol, bydd Cymru yn elwa ar wneud ein heconomi yn wyrdd, ac yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith hwnnw gyda'n cyfoeth o adnoddau naturiol ac arbenigedd mewn arloesi."

Rydym nawr yn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Bydd y Gronfa Codi'r Gwastad yn buddsoddi hyd at £4.8 biliwn ar draws y DU mewn seilwaith lleol sy'n cael effaith weladwy ar bobl a'u cymunedau. Bydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cefnogi pobl a chymunedau â'r angen mwyaf, gan weithio'n uniongyrchol ag ugain o awdurdodau lleol Cymru a phartneriaid lleol, sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion eu hardaloedd a chyflawni'n gyflym ar lawr gwlad.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i sefydlu o leiaf un Porthladd Rhydd yng Nghymru cyn gynted â phosib, i ddenu busnesau newydd a buddsoddiad a chreu swyddi a chyfleoedd mewn ardaloedd sydd eu hangen fwyaf. Rydym hefyd yn buddsoddi yn seilwaith trafnidiaeth Cymru. Ar ben y £343 miliwn a gyhoeddwyd i reilffyrdd Cymru'r llynedd, mae nifer o brosiectau eraill yn yr arfaeth ac mae £20 miliwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer cysylltiadau trawsffiniol rhwng cenhedloedd y DU. Rydym yn buddsoddi yn y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd, i greu cyfleuster ymchwil a datblygu a phrofi trenau o'r radd flaenaf yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i adfywio hen safleoedd glofaol yn Onllwyn a Nant Helen - gan ddarparu swyddi sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau a chyfleoedd ar gyfer y gadwyn gyflenwi. Mae'r pandemig wedi amlygu y dylai pawb gael mynediad at gysylltedd cyflym iawn.

Dyna pam mae Prosiect Gigabit, y mae'r llywodraeth wedi ymrwymo swm nodedig o £5 miliwn iddo, i gyflwyno band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit mewn ardaloedd sydd fwyaf anodd eu cyrraedd, a'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, bargen gwerth £1 biliwn gyda gweithredwyr ffonau symudol i ymestyn darpariaeth 4G, yn fuddsoddiadau hirdymor allweddol.

Mae Cymru wedi bod yn wlad o ddyfeisgarwch ers tro byd. A'r creadigrwydd, technoleg newydd ac agwedd benderfynol yma fydd yn mynd â ni yn ein blaen. Mewn partneriaeth ag arloeswyr a busnesau, arweinwyr lleol a chymunedau, byddwn yn parhau i gydweithio i adeiladu'n ôl yn well a dod allan o'r pandemig gyda chynllun sy'n darparu buddion gwirioneddol i bobl Cymru.



**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# Cyflwyniad

**Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu, am y tro cyntaf, ymrwymiadau allweddol Llywodraeth y DU i Gymru hyd yn hyn. O'r dechrau i'r diwedd, mae'r Cynllun yn tanlinellu cyfraniad economaidd, gwyddonol a diwylliannol hanfodol Cymru i wead yr Undeb, ac, yn gyfnewid, beth mae'r Undeb a'i hadnoddau ar y cyd, yn gallu ac yn debygol o'i gyflawni i Gymru.**

Mae'n mynegi'r hyn sydd wedi, ar ganol ac yn debygol o gael ei wneud ar draws ystod eang o feysydd - o chwaraeon i ddur, rheilffyrdd i ymchwil a datblygu a band eang i gymorth busnes - sy'n sail i fywyd bob dydd ac economaidd.

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar y buddion diriaethol a phenodol y bydd Llywodraeth y DU yn eu sicrhau ar lefel leol. Mae hefyd yn edrych ar yr ymdrechion tymor hwy a fydd yn gadael gwaddol parhaus i genedlaethau i ddod. Mae uchelgeisiau'r Cynllun yn alwad i bob partner sy'n ymwneud â ffyniant Cymru yn y dyfodol; bydd eu partneriaeth a chydweithio yn hollbwysig i gyflawni'r ymrwymiadau a nodir isod. Ac wrth i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru esblygu, felly hefyd natur ymrwymiad Llywodraeth y DU - yr hyn sy'n bwysig yw ei fod yn gadarn, sylfaen y gall, ac y bydd llywodraethau'r dyfodol yn adeiladu arni.

Nid yw'r Cynllun hwn yn ddarlun cyflawn o'n huchelgeisiau i Gymru a bydd y Llywodraeth hon yn parhau i weithio'n galed i gefnogi a darparu cyfleoedd newydd ar gyfer swyddi, twf ac arloesedd.

**Rhan 1** – ymrwymo i gefnogi twf economaidd ar draws Cymru drwy rymuso cymunedau a chodi'r gwastad, gyda chefnogaeth y Cynllun ar gyfer Swyddi, Cronfa Codi'r Gwastad, Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, Banc Seilwaith y DU a Bargenion Dinesig a Thwf, a chryfhau sectorau economaidd allweddol Cymru fel dur a'r diwydiant modurol.

**Rhan 2** – ymrwymo i adeiladu'n ôl yn fwy gwyrdd ar seiliau adnoddau ynni adnewyddadwy a charbon isel unigryw Cymru, gan nodi'r diddordeb cynyddol yng Nghymru mewn ynni hydrogen, ynni gwynt ar y môr, ynni'r môr ac ynni niwclear uwch.

**Rhan 3** – ymrwymo i sicrhau bod cymunedau yng Nghymru wedi'u cysylltu'n dda, gyda buddsoddiadau hirdymor mewn trafnidiaeth a seilwaith digidol yn yr arfaeth i gefnogi twf economaidd.

**Rhan 4** – ymrwymo i gryfhau lle Cymru wrth wraidd Deyrnas Unedig ffyniannus, drwy ei chyfraniad i'r Lluoedd Arfog a thrwy hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a chwaraeon Cymru, a diogelu cymunedau rhag trallod.

# **Rhan 1:** Cefnogi twf drwy rymuso ein cymunedau

I'r DU ffynnu, rhaid i bob rhan o'r Undeb ffynnu, dyna pam mae Llywodraeth y DU wedi rhoi lle canolog i godi'r gwastad yn ei hagenda.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn credu bod rhaid i ni gymryd ymagwedd sy'n cydnabod bod gan leoedd gwahanol heriau a chryfderau gwahanol, ac mae'n gosod rhanbarthau a chymunedau'r DU wrth wraidd penderfyniadau buddsoddi.

Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gydag awdurdodau lleol, partneriaid lleol a chymunedau yng Nghymru i ddarparu swyddi a thwf.

**Mae £27 biliwn drwy'r Gronfa Codi'r Gwastad, Cronfa Adfywio Cymunedol y DU a Banc Seilwaith y DU wedi cael ei neilltuo i godi'r gwastad ar draws y DU i gyd, yn cynnwys cymunedau yng Nghymru.**



### Cynllun ar gyfer Swyddi

Mae'r Cynllun ar gyfer Swyddi yn diogelu, cefnogi a chreu swyddi ym mhob un o genhedloedd a rhanbarthau'r DU a darparu'r seiliau cryfaf posib ar gyfer adferiad economaidd llawn a chyflym. Mae'n darparu cymorth allweddol i bobl a busnesau yng Nghymru.

Mae gohirio taliadau Treth ar Werth wedi bod yn achubiaeth i sectorau twristiaeth a lletygarwch Cymru. Mae'r cynllun Kickstart wedi creu 5,000 o swyddi hyd yn hyn yng Nghymru. Ledled y DU, mae nifer yr hyfforddwyr gwaith sy'n cefnogi pobl i gael gwaith wedi dyblu. Mae'r mesurau hyn yn ychwanegol i'r £8.6 biliwn a gafodd ei ddarparu i Lywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig, sy'n gyfystyr â £270 y pen yng Nghymru, a'r ymrwymiadau i godi'r gwastad o ran cyfleoedd economaidd a buddsoddi mewn seilwaith.

### Cronfa Codi'r Gwastad

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cyflwyno'r Gronfa Codi'r Gwastad ledled y DU. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth y DU i gymryd golwg strategol o'r DU i gyd, gan ddyrannu cyllid ym mhob rhan o'r wlad ni waeth beth fo'r ffiniau gweinyddol.

Bydd y Gronfa yn buddsoddi mewn seilwaith lleol sy'n gwella bywyd bob dydd ar draws y DU, yn cynnwys adfywio canol trefi a strydoedd mawr, uwchraddio trafnidiaeth leol, a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth. Bydd Cymru yn derbyn o leiaf 5% o'r cyfanswm dyraniadau ar gyfer y cylch ariannu cyntaf, a bydd y Gronfa hefyd yn rhoi £125,000 mewn cyllid capasiti i bob awdurdod lleol yng Nghymru i helpu i adeiladu perthynas newydd â Llywodraeth y DU.

## Cronfa Adfywiol Cymunedol y DU a Chronfa Ffyniant a Rennir y DU

Ar adeg y Gyllideb ym mis Mawrth, amlygodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i godi'r gwastad ar draws y DU i gyd, gan ymestyn ei chymorth ar draws pob un o'r pedair cenedl wrth i ni osod llwybr clir tuag at adferiad economaidd. Rydym nawr yn cyflawni'r ymrwymiad hwn drwy gyflwyno rhaglenni buddsoddi newydd ledled y DU i sicrhau na adewir yr un gymuned ar ôl, yn enwedig wrth i ni adfer yn sgil pandemig Covid-19.

Mae Llywodraeth y DU yn darparu cyllid ychwanegol gwerth £220 miliwn drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU (UKCRF) i helpu ardaloedd lleol i baratoi ar gyfer lansio Cronfa Ffyniant a Rennir y DU (UKSPF) yn 2022. Bydd UKCRF yn darparu buddsoddiadau allweddol i bobl a chymunedau ledled Cymru. Bydd yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn sgiliau, cymunedau, lleoedd, busnesau lleol, a chefnogi pobl i gael gwaith. Bydd y Gronfa hon yn gweld Llywodraeth y DU yn gweithio'n uniongyrchol ag ugain o awdurdodau lleol Cymru, sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion eu hardaloedd lleol ac yn cyd-fynd yn fwy agos â'r dirwedd economaidd leol.

Awdurdodau lleol fydd yn cyflwyno ceisiadau prosiect gan bartneriaid rhanbarthol. Drwy wneud hyn, rydym yn sicrhau bod gan bob prosiect ddylanwad yn lleol a'i fod yn mynd i'r afael ag anghenion cymunedau lleol o ddifrif.




Mae UKSPF yn olynydd domestig i raglen Cronfa Strwythurol yr UE. Bydd yn gwneud y gorau o'r manteision o adael yr UE drwy ddarparu cyllid yn gynt, targedu gwell, alinio gwell â blaenoriaethau domestig a chael gwared ar fiwrocratiaeth feichus yr UE. Er y bydd UKSPF yn wahanol yn ei dyluniad a hyd, bydd UKCRF yn helpu i lywio dyluniad UKSPF drwy gyllido cynlluniau peilot blwyddyn o hyd. Bydd Llywodraeth y DU yn amlinellu manylion eraill ynghylch UKSPF mewn fframwaith buddsoddi ledled y DU yn ddiweddarach eleni a bydd yn cadarnhau ei phroffiliau cyllido yn yr Adolygiad Gwariant nesaf.

## Banc Seilwaith y DU

Mae cyhoeddiad y Canghellor adeg y Gyllideb o Seilwaith Banc newydd yn y DU, gyda £22 biliwn o bŵer ariannol cychwynnol, yn cynrychioli cyfle na fu erioed ei fath i Gymru.

Bydd amcanion y Banc yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, yn enwedig wrth gyrraedd ein targed sero net erbyn 2050; a chefnogi twf rhanbarthol ac economaidd lleol drwy gysylltiadau gwell, cyfleoedd ar gyfer swyddi newydd a lefelau uwch o gynhyrchiant. Bydd ei ffocws yn cynnwys seilwaith economaidd yn y sectorau ynni glân, trafnidiaeth, digidol, dŵr a gwastraff. Bydd y Banc yn gweithredu ar draws y DU i gyd, gan weithio'n agos gyda'r sector preifat a'r sector cyhoeddus i gefnogi buddsoddi mewn seilwaith. Bydd adeiladu perthnasoedd strategol ag awdurdodau lleol Cymru a diwydiannau perthnasol, megis Banc Datblygu Cymru, yn flaenoriaeth. O'r haf ymlaen, bydd y Banc yn cynnig benthyciadau i awdurdodau lleol ar draws y DU, yn cynnwys Cymru ar gyfradd atyniadol i brosiectau gwerth uwch a strategol gwerth o leiaf £5 miliwn.

## Bargenion Dinesig a Thwf

**Gan gydweithio â phartneriaid, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £791 miliwn er mwyn gyrru Bargeinion Dinesig a Thwf yn eu blaenau ledled Cymru.**

Yn 2016, arwyddodd Llywodraeth y DU y Fargen Ddinesig gyntaf yng Nghymru. Arweiniodd y bartneriaeth hon rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd at Lywodraeth y DU yn ymrwymo £500 miliwn o gyllid i'r rhanbarth mewn bargen gwerth £1.2 biliwn. Mae'r fargen hon a Bargenion Twf dilynol Cymru yn grymuso rhanbarthau Cymru i bennu sut orau i hybu swyddi a thwf yn eu hardaloedd ac adnabod eu hanghenion a'u cryfderau eu hunain. Mae buddsoddiad Llywodraeth y DU ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, er enghraifft, wedi galluogi sefydlu'r Ffowndri Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, sy'n adeiladu ar gryfderau yn y rhanbarth mewn gweithgynhyrchu lled-ddargludyddion uwch.

Yn 2017, arwyddodd Llywodraeth y DU ail Fargen Ddinesig Cymru yn rhanbarth Bae Abertawe. Cyfrannodd Llywodraeth y DU £115.6 miliwn fel rhan o fuddsoddiad y fargen gyda'r nod o greu 9,000 o swyddi a chodiad o £1.8 biliwn o werth gros a ychwanegwyd (GVA) dros oes y fargen.

Mae'r Fargen wedi sicrhau cynnydd ymyriadau ynni carbon isel megis prosiect Hwb Morol Doc Penfro, prosiectau ymchwil a datblygu fel Pentref Llesiant Pentre Awel ac ymyrraeth seilwaith digidol gyda'r nod o ddenu busnesau i'r rhanbarth.

Yna, cyhoeddwyd Bargen Twf Gogledd Cymru yn 2018. Ar ôl arwyddo ei Chytundeb Bargen Derfynol ym mis Rhagfyr 2020, ymrwymodd Llywodraeth y DU £120 miliwn gyda'r nod o drosoleddu £2.2 biliwn o godiad GVA gyda'r buddsoddiad yn cyrraedd mewn da bryd i'r Fargen allu chwarae ei rhan yn yr adferiad o Covid-19.

Mae prosiect ynni llanwol y Fargen, Morlais, yn addawol iawn wrth iddo baratoi'r safle oddi ar arfordir Ynys Môn ar gyfer datblygwyr y sector preifat i lesio'r ardal ar gyfer eu defnydd o dechnolegau ynni llanwol.

Ymrwymodd Llywodraeth y DU £55 miliwn yn 2019 ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru. Ar ôl arwyddo ei Benawdau o'r Telerau ym mis Rhagfyr 2020, mae Canolbarth Cymru bellach yn casglu portffolio o ymyriadau uchelgeisiol.

Yng Nghyllideb 2021, roedd Llywodraeth y DU yn falch o allu sbarduno cyllid ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe, Bargen Twf Gogledd Cymru a Bargen Twf Canolbarth Cymru er mwyn i'r rhanbarthau hyn allu derbyn eu buddsoddiadau'n gynt ac er mwyn i'r Bargeinion Twf chwarae rôl allweddol yn adferiad Covid-19. Wrth edrych ymlaen tua'r dyfodol, rydym yn parhau yn gwbl ymrwymedig i ddefnyddio Bargeinion Dinesig a Thwf i sicrhau cynnydd a chryfder i'r Undeb. Roedd maniffesto 2019 yn cynnwys ymrwymiad ar gyfer Bargen Twf y Gororau ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.



## Porthladdoedd Rhydd

**Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn glir y bydd Porthladdoedd y DU yn elwa'r DU gyfan; rydym wedi ymrwymo i sefydlu o leiaf un Porthladd Rhydd yng Nghymru cyn gynted â phosib. Bydd y Porthladdoedd Rhydd yn denu buddsoddiad a busnesau newydd, yn sbarduno twf a ffyniant yng Nghymru.**

Bydd hyn yn sicrhau y bydd Cymru'n gallu manteisio ar y Porthladdoedd Rhydd i ddenu buddsoddiadau a busnesau newydd, er mwyn gyrru twf a ffyniant yn eu blaenau. Mae codi'r gwastad yn amcan allweddol ym mholisi'r Porthladdoedd Rhydd, a dymunwn ddefnyddio'r Porthladdoedd Rhydd i ddenu swyddi a buddsoddiad i rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Byddwn yn sicrhau y gwireddir yn llawn y cyfleoedd economaidd ac adfywio a gynigir gan Borthladdoedd Rhydd.



## Porth y Gorllewin

Cryfhau'r Undeb wrth hybu economi Cymru yw dau o'r rhesymau allweddol pam fod **Llywodraeth y DU yn archwilio, ynghyd â phartneriaid rhanbarthol, y cyfle i gael Porth y Gorllewin, gan bontio De-ddwyrain Cymru a Gorllewin Lloegr.**

Wedi ei lansio cyn yr etholiad diwethaf, mae gwaith yn mynd rhagddo dan Fwrdd Partneriaeth annibynnol, dan arweiniad Katherine Bennett CBE, Uwch Is-lywydd Airbus, ac yn cynnwys awdurdodau lleol o Dde-ddwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a chymorth gan fentrau preifat a Llywodraeth y DU, i weld sut all y ddau ranbarth elwa ar y fenter a arweiniodd at ddileu codi tollau ar Bontydd yr Hafren. Mae adolygiad economaidd annibynnol, dan arweiniad Deloitte, ar waith ar hyn o bryd i ddadansoddi a chynnig argymhellion ar gyfer gwell cydweithrediad a llwybr tuag at ffyniant.

## Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

Byddai'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn cefnogi arloesedd i'r dyfodol yn y diwydiant rheilffordd cartref a rhyngwladol. Byddai'r cyfleuster yn galluogi seilwaith trac, trên a rheilffordd eraill i gael eu peilota, eu profi a'u cymeradwyo cyn cael eu cyflwyno ar raddfa o bwys, gan ysgogi gwneuthurwyr rheilffordd i fuddsoddi yn y DU. Byddai'r Ganolfan yn helpu'r DU hefyd i sbarduno'r datblygiad o dechnolegau rheilffordd sero net fel hydrogen.

Mae amcanestyniadau cynnar yn awgrymu y gallai'r Ganolfan greu hyd at 120 o swyddi, y mwyafrif ohonynt mewn rolau ymchwil, datblygu a thechnegol, a thros 300 yn anuniongyrchol mewn gwaith adeiladu. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd economaidd i gefnogi'r ardaloedd glofaol blaenorol yn Onllwyn a Nant Helen yn Ne-ddwyrain Cymru.

**Fel y cyhoeddwyd yn y Gyllideb, byddwn yn buddsoddi hyd at £30 miliwn, yn amodol ar gymeradwyaeth ac ynghyd â Llywodraeth Cymru, yn y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd, i greu cyfleuster ymchwil a datblygu a phrofi trenau o'r radd flaenaf yng Nghymru.**

## Dur

**Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gefnogi diwydiant dur cynhyrchiol, bywiog a modern yng Nghymru.**

Mae dur yn parhau i fod yn bwysig i economi Cymru ac yn strategol bwysig i'r DU gyfan.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos â'r diwydiant i sicrhau dyfodol cynaliadwy iddo. Gan gydweithio â diwydiant, rydym wedi cyflwyno'r canllaw Caffael Cyhoeddus ar Ddur sy'n sicrhau bod y sector cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth i'r buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach wrth gaffael prosiectau sylweddol. Rydym wedi ail ymgynnull y Cyngor Dur hefyd a lansio gweithlu caffael ar y cyd ag UK Steel i sicrhau y gallwn barhau â'r berthynas hon. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n llwyr i gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2050. I gyflawni hynny bydd angen i'r sector dur ddatgarboneiddio. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r diwydiant i gefnogi ei waith datgarboneiddio. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cyhoeddi Cronfa Dur Glân o £250 miliwn i gefnogi sector dur y DU er mwyn sicrhau cynhyrchiant haearn a dur sy'n cynnwys llai o garbon, drwy fuddsoddiad mewn technolegau a phrosesau newydd. Bydd y Gronfa'n helpu'r sector i gyflawni ein targed, drwy gynyddu hirhoedledd a gwytnwch wrth harneisio cyfleoedd ar gyfer twf glân.

## Modurol

Mae Llywodraeth y DU yn benderfynol o sicrhau bod Cymru, a'r DU, yn parhau i fod yn un o'r lleoliadau mwyaf cystadleuol yn y byd ar gyfer y sector modurol. Rydym yn buddsoddi mewn ymchwil a datblygu a phrosiectau cyfalaf i ddatblygu a sefydlu'r genhedlaeth nesaf o gerbydau a thechnolegau ag allyriadau sero yn y DU.

Fel rhan o Gynllun 10 Pwynt y Prif Weinidog ar gyfer chwyldro diwydiannol gwyrdd, bydd bron i £500 miliwn o gyllid ar gyfer y Gronfa Trawsnewid Modurol ar gael dros y pedair blynedd nesaf i adeiladu cadwyn gyflenwi o gerbydau trydan sy'n gystadleuol yn rhyngwladol. Mae'r Gronfa ar gael i bob rhan o'r DU a bydd yn cefnogi buddsoddiadau cyfalaf yn ogystal â rhai ymchwil a datblygu ar draws rhannau pwysig o'r gadwyn gyflenwi cerbydau trydan, gan gynnwys sicrhau gweithgynhyrchu celloedd batri.


Yn ogystal, rydym yn buddsoddi mewn cynlluniau i gefnogi'r ddarpariaeth o bwyntiau pweru mewn cartrefi, gweithleoedd ac ar strydoedd preswyl.

## Hwb Masnach a Buddsoddi Cymru

Bydd Allforion a Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor (FDI) wrth wraidd nod Llywodraeth y DU i 'godi'r gwastad' o ran economi'r DU.

Bydd Hwb Masnach a Buddsoddi newydd Cymru yn gartref i arbenigwyr allforio a buddsoddi. Bydd hyn yn galluogi busnesau yng Nghymru i gael cefnogaeth lywodraethol ledled y DU i'w helpu i wneud y mwyaf o'u potensial i allforio. Byddant hefyd yn helpu busnesau i hybu eu masnachu mewn marchnadoedd newydd dramor, cael gwell mynediad at brif farchnadoedd masnachu fel Siapan, yr UDA ac India, a bwydo'n uniongyrchol i mewn i raglen cytundebau masnachu rhad ac am ddim yr Adran Fasnach Ryngwladol (DIT).

Bydd yr hwb yn cefnogi buddsoddiad i mewn i Gymru heddiw.



**ASTUDIAETH ACHOS: Y Ganolfan Adeiladu Gweithredol**
Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi diwydiannau'r dyfodol a fydd yn darparu swyddi a chyfleoedd ledled Cymru. Drwy'r Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol, dyfarnwyd £36 miliwn i'r Ganolfan Adeiladu Gweithredol. Mae'r prosiect hwn ar y cyd gan Brifysgol Abertawe a chwmnïau arloesol lleol wedi arddangos technolegau adeiladu gweithredol a fydd yn gweddnewid sut mae adeiladau'n defnyddio ynni, a'u troi o fod yn ddefnyddwyr ynni i orsafoedd pŵer. Mae'r buddsoddiad hwn mewn arloesedd ynni glân yn dangos bod y DU yn parhau i arwain y ffordd wrth leihau allyriadau tra hefyd yn tyfu ein heconomi, ac yn cefnogi technoleg werdd gyffrous a allai gwtogi biliau ynni, cwtogi allyriadau carbon a chreu cartrefi a gweithleoedd gwell.



## Cefnogi sectorau a busnesau'r dyfodol

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gefnogi sectorau allweddol yng Nghymru, tra hefyd yn creu amgylchedd lle gall fusnesau'r dyfodol ffynnu. Mae gennym eisoes gryfderau sector sylweddol yng Nghymru, gan gynnwys ein clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd, y sector fintech, deallusrwydd artiffisial, gwyddor data, technoleg-amaeth, awyrofod, y diwydiannau creadigol a ffermio.

Rydym wedi cefnogi'r diwydiannau hyn drwy grantiau a benthyciadau. Er enghraifft, **mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi £25m drwy'r Gronfa Strength in Places yn CS Connected i gefnogi clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd Cymru, ac wedi darparu dros £2.2 biliwn ar gyfer busnesau micro, bach a chanolig yng Nghymru.**

Gan edrych ymlaen, mae Llywodraeth y DU yn gweithio i gynyddu cynhyrchiant, twf economaidd a swyddi yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i gyrraedd ei tharged o 2.4% o gynnyrch domestig gros yn cael ei wario ar Ymchwil a Datblygu ar draws economi'r DU, gan gynnwys Cymru, erbyn 2027, ar ôl y gyllideb Ymchwil a Datblygu uchaf erioed o bron i £15bn, a sbardun o fwy na £1.5bn yn 2020/21 yn y flwyddyn honno yn unig.

**Mae Cymru wedi buddsoddi £86.9m ar 97 o brosiectau drwy Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol Ymchwil ac Arloesedd y DU.**

“Mae’r DU yn arweinydd byd-eang yn y gwaith o ddylunio a gweithgynhyrchu waffers lled-ddargludyddion cyfansawdd. Croesawir y cyllid o £25.4m gan Lywodraeth y DU ac mae’n arwydd o’r gydnabyddiaeth o botensial y clwstwr sy’n parhau i fod y cyntaf o’i fath yn y byd ar gyfer lled-ddargludyddion cyfansawdd, ac yn allweddol wrth helpu’r DU i gyflawni ei photensial o ran technoleg. Lled-ddargludyddion cyfansawdd yw’r deunyddiau lled-ddargludyddion gorau sydd ar gael gydag ystod o rinweddau unigryw a byddant wrth wraidd bron pob sector diwydiannol blaenllaw yn yr 21ain ganrif.”

Dr Drew Nelson, Llywydd, IQE plc

Lansiodd y DU adolygiad o ostyngiadau treth ymchwil a datblygu i sicrhau bod y DU, gan gynnwys Cymru, yn parhau yn lleoliad cystadleuol ar gyfer ymchwil o’r radd flaenaf.

Lansiwyd ymgynghoriad yng Nghyllideb 2021 i archwilio natur buddsoddiad ymchwil a datblygu’r sector preifat yn y DU. Ymysg pethau eraill, nod yr ymgynghoriad yw ceisio barn gan randdeiliaid ar eu profiadau wrth gynnal ymchwil a datblygu mewn gwahanol rannau o’r DU ac a oes yna rôl ar gyfer gostyngiadau treth wrth sicrhau bod y gweithgarwch hwn yn digwydd yn eang.


Yn y Gyllideb, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ar gyfer mentrau bach a chanolig ar gyfer mabwysiadau digidol a hyfforddiant rheoli, yn dwyn yr enw Helpu i Dyfu. Bydd hyn yn galluogi cwmnïau i ddod yn fwy effeithlon a lleihau eu costau, hybu cynhyrchiant ac elwa yn sgil hynny i sicrhau bod y cwmnïau hyn yn gallu cyrraedd eu llawn botensial. Cyhoeddwyd y Super Deduction gan Lywodraeth y DU hefyd. O fis Ebrill 2021 tan fis Mawrth 2023 gall gwmnïau hawlio 130% o lwfansau cyfalaf ar fuddsoddiadau ar beiriannau. Bydd hyn yn annog cwmnïau i fuddsoddi mewn peiriannau sy’n hybu cynhyrchiant ac asedau peirianyddol a fydd yn helpu cwmnïau i dyfu a dod yn fwy effeithlon. Y cwmnïau mwyaf arloesol sy’n gyrru twf i’r dyfodol. Ond mae cwmnïau arloesol sy’n tyfu sydd â chostau ymchwil a datblygu uchel, yn aml yn ei chael hi’n anodd cael yr arian sydd ei angen arnynt. O ganlyniad, mae Llywodraeth y DU wedi lansio Future Fund: Breakthrough. Bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo £375 miliwn i'w gyd-fuddsoddi ynghyd â’r sector preifat mewn cwmnïau o dwf cryf, ymchwil a datblygu sylweddol o’r DU.



"Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi rhaglenni sylweddol i helpu'r DU i gyflawni ei thargedau Sero Net, gyda datblygiad lled-ddargludyddion cyfansawdd ar gyfer cerbydau trydan a rhwydweithiau telecom i'r dyfodol, gan ddarparu twf economaidd a swyddi o werth uchel ar gyfer y rhanbarth, a chyfleoedd rhagorol ar gyfer allforio."

Dr Andy G Sellars, Cyfarwyddwr Strategol, Rhaglenni Lled ddargludyddion Cyfansawdd, Catapult

**ASTUDIAETH ACHOS:**
**Hyrwyddo buddsoddiad i mewn i Gymru**
Drwy gefnogaeth gan Lywodraeth y DU fel y Ganolfan Catapult Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a Chronfa Strength in Places, mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi datblygiad y clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd yn Ne Cymru. Mae'r arloesedd hon o'r radd flaenaf yn fyd-eang yn un o asedau allweddol Cymru, ac ym mis Hydref cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n rhoi rhagor o gymorth i'r clwstwr fel rhan o raglen i ddarparu hyrwyddiad neilltuol er mwyn dangos y cyfle i fuddsoddwyr tramor.



### Rhaglen Gyfleoedd o Botensial Uchel

Bydd Cymru'n elwa hefyd ar raglen Cyfleoedd o Botensial Uchel (HPO), sy'n adnabod cyfleoedd penodol i fuddsoddi ar draws y DU gyfan a fyddai'n elwa ar gael gwaith hyrwyddo wedi'i dargedu.

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd DIT yr ail rownd o gynigion llwyddiannus ar gyfer y rhaglen HPO, gan gynnwys dau HPO yng Nghymru mewn lled-ddargludyddion ac iechyd med-tech. Mae DIT y gweithio gyda phartneriaid i adnabod y cyfleoedd hyn, datblygu cynigion buddsoddi a rhoi cynlluniau hyrwyddo ar waith sy'n dangos y cyfle i fuddsoddwyr tramor, gan yrru buddsoddiad i mewn i ranbarthau a chenhedloedd y DU.

# **Rhan 2:** Adeiladu'n ôl yn fwy gwyrdd: Cymru wrth wraidd yr ymgyrch i gyflawni sero net

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i chwarae rôl ganolog yn yr ymdrech fyd-eang i gyrraedd sero net erbyn 2050.

**Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £90 miliwn ar gyfer prosiectau sero net arloesol yng Nghymru, gan gynnwys**

- £36 miliwn ar gyfer y prosiect y Ganolfan Adeiladu Gweithredol i weddnewid y ffordd y mae'r DU yn dylunio, adeiladu ac yn cynnal adeiladau.
- £15.9 miliwn ar gyfer cerbydau trwm trydan i'w cynhyrchu yng Nghwmbrân.
- £7.9 miliwn ar gyfer gwresogi rhanbarthol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd.
- £1.4 miliwn ar gyfer technoleg trafnidiaeth hydrogen.
- £1 miliwn i sbarduno'r trawsnewid diwydiant glân ar hyd Dyfrffordd Aberdaugleddau a bron i
- £2.5 miliwn ar gyfer prosiect Hwb Morol Doc Penfro.

Yn ogystal, mae gan Gymru gyfle i elwa ar ragor o gyllid gan gynnwys drwy'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol actif o £289 miliwn, £250 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer y Gronfa Dur Glân, y Gronfa Hydrogen Sero Net o £240 miliwn a'r Gronfa Seilwaith Dal a Storio Carbon o £1 biliwn.



“Bydd buddsoddiad £15.9m Llywodraeth y DU yn rhoi tîm peirianneg medrus iawn Meritor, sydd wedi ei leoli yng Nghymru, ar flaen y gad gydag uwch dechnolegau cerbydau masnachol, gan sicrhau bod De-ddwyrain Cymru yn lleoliad perffaith ar gyfer cwmnïau sy’n datblygu trafnidiaeth a thechnolegau glân. Bydd cyfleuster brêc disg aer presennol Meritor yng Nghwmbrân yn cynnal Canolfan Ragoriaeth eMobility Ewropeaidd newydd gyda labordy mwy o faint a chyfleusterau Ymchwil a Datblygu.”

Ken Hogan, Is-lywydd, Truck, Ewrop, Tsieina,

**ASTUDIAETH ACHOS:**
**Clwstwr Diwydiannol De Cymru**

Bydd y cyllid o £20 miliwn yn cefnogi datblygiad Clwstwr Diwydiannol De Cymru, yn ymestyn o Sir Benfro i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Nod y prosiect hwn yw creu cynllun cynaliadwy ar gyfer y rhanbarth drwy gynhyrchu a dosbarthu pŵer hydrogen, cynhyrchiant trydan glanach sy'n defnyddio technolegau carbon wedi'i ddal, nwy naturiol sy'n llawn hydrogen a datgarboneiddio diwydiannol sylweddol drwy gyfnewid tanwydd a chynhyrchu tanwyddau trafnidiaeth glanach.



## Clwstwr Diwydiannol De Cymru

Cynhyrchwyd dros 10 megaton o allyriadau carbon gan fusnesau a diwydiannau yng Nghymru'r llynedd. Bydd eu symudiad at dechnolegau cynhyrchu diwydiannol carbon isel, cynaliadwy yn angenrheidiol i darged sero net Cymru.

**Mae Llywodraeth y DU a diwydiant wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £40 miliwn, £21.5 miliwn a £18.75 miliwn yn y drefn honno, i gefnogi clwstwr o ddiwydiannau yn Ne Cymru i symud tuag at sero net.**

Fel rhan o'r Her Datgarboneiddio Diwydiannol, mae hyn yn cynnwys £38 miliwn i alluogi De Cymru i gynnal astudiaethau peirianneg manwl i seilwaith dal, defnyddio a chadw hydrogen a charbon (CCUS), a £2.25 miliwn ychwanegol i alluogi De Cymru i ddatblygu cynllun datgarboneiddio strategol a phwrpasol a arweinir gan ddiwydiant.

## Canolfan Hydrogen Caergybi

Mae Canolfan Hydrogen Caergybi yn cynnig pwerdy cynhyrchu hydrogen gwyrdd peilot i gyflenwi tanwydd hydrogen i'r marchnadoedd cerbydau morol a nwyddau trwm ar Ynys Môn. Mae'r cynnig yn edrych ar fanteisio ar waddol adnoddau naturiol ffafriol y rhanbarth a'i safle fel coridor trafnidiaeth aml-foddol, trawsffiniol.

**Mae Llywodraeth y DU wedi neilltuo £4.8 miliwn, yn amodol ar achos busnes a chymeradwyaeth arall, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Canolfan Hydrogen Caergybi.**

“Bydd y grant hwn gan Lywodraeth y DU yn helpu i ddiogelu miloedd o swyddi sydd eisoes yn bodoli mewn diwydiannau yn Ne Cymru a helpu i ddenu miloedd yn rhagor i’r dyfodol. Drwy ddatblygu cynllun a gweledigaeth ar gyfer y pŵer carbon isel angenrheidiol, gall diwydiannau wedyn gynllunio eu llwybrau tuag at sero net yn strategol.”

“Heb y datblygiadau seilwaith hyn, y risg yw y bydd diwydiannau yn cael eu gorfodi i ail-leoli mewn rhanbarthau a/neu wledydd sy’n cynnig hynny. Mae’r grant hwn felly yn rhoi diwydiant De Cymru ar y llwybr cywir tuag at sero net ac yn eithriadol o bwysig ar gyfer ffyniant Cymru a chenedlaethau’r dyfodol yn y wlad.

Dr Chris Williams, Pennaeth Datgarboneiddio Diwydiannol, Diwydiant Cymru

### Gwynt ar y môr

Mae gan Lywodraeth y DU uchelgais o gyrraedd capasiti ynni gwynt ar y môr o 40 gigawat erbyn 2030. Mae prosiectau Cymru yn helpu i wneud cynnydd tuag at targed hwn: **mae dau brosiect ynni gwynt dau gigawat oddi ar arfordir Gogledd Cymru wrthi’n cael eu datblygu.**

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gweithio tuag at wireddu capasiti ynni gwynt ar y môr arnofiol o un gigawat. Mae potensial mawr ar gyfer defnyddio'r dechnoleg hon yn nyfroedd Cymru, yn enwedig yn y Môr Celtaidd oddi ar arfordir de-orllewin Cymru a Lloegr lle mae cyflymderau gwynt yn uchel a moroedd dyfnion o fewn cyrraedd i borthladdoedd strategol mawr. Rydym eisoes yn gweld datblygwyr yn edrych ar Gymru fel lleoliad a ffafrir.

Mae Llywodraeth y DU a'i phartneriaid hefyd yn cymryd ystod o gamau eraill:

- Bydd datblygwyr ynni gwynt ar y môr arnofiol yn gallu gwneud cais yn yr arwerthiant Contractau Gwahaniaeth nesaf yn ddiweddarach eleni.
- Bydd Portffolio Arloesedd Sero Net Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn technolegau ynni gwynt ar y môr arnofiol arloesol, sy'n torri tir newydd.
- **Mae Ystâd y Goron wedi cadarnhau ei bwriad i gynnal rownd lesio ffurfiol ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y môr arnofiol yn y Môr Celtaidd, gan ganolbwyntio ar brosiectau sydd hyd at oddeutu 300 megawat o ran maint.** Mae hyn ddeg gwaith yn fwy na chapasiti ynni gwynt ar y môr arnofiol presennol y DU ac yn rhoi Cymru ar flaen y gad o ran y chwyldro ynni gwynt nesaf.
- Gyda chefnogaeth £2.45 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU, bydd Prosiect Morol Doc Penfro yn darparu safleoedd prawf ac arbenigedd ym maes peirianneg i roi hwb i ynni gwynt ar y môr arnofiol.

## Ynni'r môr

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i gynhyrchu ynni o'r môr, yn enwedig y cyfle a gyflwynir gan dechnoleg ffrwd llanw, cyn belled ag y gall gynnig gwerth am arian amlwg. Gallai gweithgynhyrchu a gosod dyfeisiau ffrwd llanw fod yn gyfle diwydiannol sylweddol i Gymru, yn enwedig yng ngogledd Cymru lle mae cerrynt y llanw ymhlith y cryfaf yn Ewrop.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Llywodraeth y DU Alwad am Dystiolaeth gan wahodd barn ar y posibiliadau ar gyfer technolegau morol ledled y DU, gan gynnwys pa gefnogaeth ychwanegol allai yrru technolegau tuag at fasnacheiddio.


**Mae Llywodraeth y DU yn ystyried polisi yn gysylltiedig ag ynni tonnau a ffrwd llanw yn sgil y wybodaeth a gafwyd o'r Alwad ddiweddar am Dystiolaeth**.


Yn ogystal, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru a lleoedd eraill y cyfle i wneud cais i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU am gyllid ar gyfer, ymysg pethau eraill, astudiaethau dichonoldeb ar gyfer prosiectau sero net megis mentrau ynni arfordirol.

## Asio ynni

Ym mis Hydref 2020, lansiodd Awdurdod Ynni Atomig y DU (UKAEA) y broses enwebu i ddod o hyd i safle ar gyfer safle prototeip asio ynni "STEP" i'w adeiladu yn y DU erbyn 2040 gyda buddsoddiad o £222 miliwn gan Lywodraeth y DU hyd yma. Mae technoleg asio yn faes ymchwil byd-eang, hirsefydlog y mae'r DU yn awyddus i ennill troedle ynddo.

Law yn llaw â safleoedd eraill yn y DU, **mae safleoedd yng Nghymru wedi gwneud cais i fod yn gartref i'r pwerdy asio ynni**. Yn dilyn asesiad dan arweiniad UKAEA ar gyfer pob safle, bydd y safle llwyddiannus yn cael ei ddewis gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol ddiwedd 2022.





## Adweithyddion modiwlar bach

Mae adweithyddion modiwlar bach (SMRs) yn bwerdai niwclear modiwlar, ar raddfa fach.

Mae Consortiwm SMR y DU, dan arweiniad Rolls Royce, yn credu y gallai rhaglen adweithyddion SMR ddomestig gefnogi hyd at 40,000 o swyddi yn ei hanterth, yn bennaf ar draws gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Fel rhan o Gynllun Deg Pwynt y Prif Weinidog ym mis Tachwedd 2020, mae Llywodraeth y DU yn ymrwymo hyd at £215 miliwn i ddatblygu technoleg SMR.

Yn ddiweddar iawn y mis hwn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllaw newydd ar gyfer technolegau niwclear uwch – ar gyfer adweithyddion modiwlar bach ac uwch – i fod yn rhan o'r broses Asesiad Dyluniad Generig (GDA). Mae hyn yn datgloi cam allweddol ar y llwybr tuag at ddefnyddio'r technolegau niwclear hyn yn y DU. Bydd asesiad o leoliadau posib ar gyfer gosod SMR yn cael ei gynnal ymhen amser.

Mae Llywodraeth y DU yn gobeithio cyflwyno SMRs yn y DU yn ystod y 2030au, ac mae'n croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gwmni Egino i sefydlu Trawsfynydd fel lleoliad posib ar gyfer gosod SMR.

# **Rhan 3:** Cymunedau wedi'u cysylltu'n dda


Er mwyn i'w gymunedau a'i busnesau ffynnu, mae'n hanfodol bod gan Gymru'r seilwaith sydd ei angen ar ei phobl i deithio ac i weithio'n effeithiol.

Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu'r angen am fand eang a chysylltedd symudol da – mae rhai ardaloedd wedi treulio llawer gormod o amser yn ceisio ymdopi â chwmpas a gwasanaeth gwael ac annigonol.

Mae symudedd yn yrrwr pwysig o dwf a ffyniant, ac mae'n hanfodol bod gan Gymru seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau modern sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.

**ASTUDIAETH ACHOS: Gwella cysylltedd symudol yn Nyffryn Gwy**

Y Dyfawden, pentref bach yn Nyffryn Gwy, oedd y gymuned wledig gyntaf i dderbyn cwmpas symudol gwell yn sgil y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir, pan ddechreuodd mast newydd weithio ym mis Mehefin 2020.



## Cysylltedd Symudol

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno bargen gwerth £1 biliwn gyda'r pedwar gweithredwr ffonau symudol i ddarparu'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Yng Nghymru, bydd y Rhwydwaith Gwledig a Rennir yn gweld darpariaeth 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr yn cynyddu i 80% o leiaf o 60% heddiw a bydd darpariaeth gan un gweithredwr o leiaf yn cynyddu i 95% o dir Cymru, cynnydd o 90% heddiw.

Mae'r pedwar gweithredwr ffonau symudol eisoes wedi dechrau gweithio ar elfen gyntaf y rhaglen a ariennir gan y diwydiant, ac maent ar y trywydd i ddileu'r rhan fwyaf o fannau rhannol ddigyswllt erbyn canol 2024.

**Mae 76 o welliannau eisoes wedi cael eu gwneud ac mae'r gweithredwyr ffonau symudol wedi cyhoeddi 33 o safleoedd newydd yng Nghymru eleni.**

Gyda chyllid bellach ar gael ar gyfer yr elfen a ariennir yn gyhoeddus o'r rhwydwaith, mae Llywodraeth y DU a'r gweithredwyr yn parhau'n hyderus y bydd darpariaeth ar y cyd yn cael ei darparu i 95% o'r DU erbyn 2025, gydag ardaloedd yn dechrau gweld gwelliannau yn y ddarpariaeth 4G ymhell cyn i'r rhaglen orffen. Bydd hyn yn codi'r gwastad ar draws y DU drwy wella darpariaeth symudol i 280,000 safle arall a 16,000km o ffyrdd - gan roi i Gymru a gweddill y DU y seilwaith digidol o'r radd flaenaf y maent yn ei haeddu.

## Band eang

O ganlyniad i fuddsoddiad y sector cyhoeddus a'r sector preifat hyd yn hyn, gall 95% o safleoedd Cymru gael mynediad at fand eang cyflym iawn bellach, ac mae cysylltiad all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit ar gael i ychydig llai na 26% o safleoedd yng Nghymru. Serch hynny, mae llawer iawn o waith eto i'w wneud.

**Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo swm nodedig o £5 biliwn i Brosiect Gigabit, i gefnogi cyflwyno band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit. Fel rhan o hyn, neilltuodd Adolygiad Gwariant 2020 £1.2 biliwn dros bedair blynedd.**

Bydd y buddsoddiad hwn yn targedu'r safleoedd sydd fwyaf anodd eu cyrraedd, lle gall gael yr effaith fwyaf, a blaenoriaethu dulliau gweithredu y mae disgwyl iddynt gyflawni fwyaf cyflym i'r rheiny sydd mewn angen, yn cynnwys Cymru.

**Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno dros 1,800 o dalebau, gwerth yn agos at £3.4 miliwn, i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol i ysgogi buddsoddiad mewn band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit yng Nghymru.**

Lansiwyd cynllun talebau newydd yn gynharach ym mis Ebrill 2021, wedi'i dargedu at safleoedd sydd fwyaf anodd eu cyrraedd lle gall gael yr effaith fwyaf, a fydd yn arwain at fuddsoddiad pellach yng Nghymru. **Yn ogystal, bydd dros 700 o safleoedd yn cael eu huwchraddio ledled Cymru**, yn cynnwys 350 yng ngogledd Cymru, 170 ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, 70 yn Sir Benfro a 103 fel rhan o'r rhaglen Cysylltedd Gigabit Gwledig, i sicrhau bod band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit o fewn cyrraedd i gartrefi a busnesau lleol.

# "Mae seilwaith trafnidiaeth ffisegol, cadarn yn hollbwysig i ddosbarthu nwyddau a gwasanaethau i mewn, allan ac o fewn Cymru"

Michael Plaut OBE, Adeiladu Cymru Fwy Llewyrchus

## Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb

Y llynedd, gofynnodd y Prif Weinidog i Syr Peter Hendy CBE gynnal adolygiad annibynnol o gysylltiadau trafnidiaeth rhwng Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Bydd yr adolygiad yn gwneud argymhellion ynglŷn â sut all Llywodraeth y DU wella seilwaith trafnidiaeth, cynyddu mynediad at gyfleoedd economaidd a gwella cysylltedd o ddydd i ddydd pobl.

Ymhlith rhai o'r materion a nododd Syr Peter mewn perthynas â Chymru, mae'r angen am:

- Gysylltiadau capasiti uwch a chynt i deithwyr o HS2 i ogledd Cymru, ac o ganlyniad capasiti cludo llwythi gwell;
- Capasiti uwch ac amseroedd teithio cynt i'r Alban ac oddi yno o Gymru a Lloegr a Newcastle, drwy'r rheilffordd a'r ffyrdd;
- Lliniaru'r tagfeydd ar goridor yr M4 yn ne Cymru, yr adroddodd Comisiwn Burns arno'n ddiweddar i Lywodraeth Cymru, ac o ganlyniad gwelliannau i brif linell reilffordd de Cymru; a
- Chapasiti porthladd gwell yng Nghaergybi, a chysylltiadau o Ynys Môn ac arfordir gogledd Cymru i Lannau Mersi a Manceinion, gyda rhanddeiliaid ac ymgynghoreion yn adnabod yr A55 fel ffordd o ddiddordeb i'r adolygiad.



**Mae £20 miliwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer dechrau datblygu cynlluniau sy'n hanfodol i gysylltiadau trawsffiniol.** Disgwylir cyhoeddi adroddiad terfynol yr Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb yn yr haf ynghyd â'r argymhellion terfynol.

**ASTUDIAETH ACHOS:**
**Trydanu twnnel Hafern**

Mae Llundain a de Cymru bellach yn agosach nag erioed. O fis Mehefin 2020, mae teithwyr trenau wedi elwa ar reilffordd wedi'i thrydanu o brifddinas i brifddinas ar ôl i Network Rail gwblhau'r gwaith o drydanu Twnnel Hafren yn llwyddiannus. Am y tro cyntaf erioed, bydd rheilffordd drydan yn rhedeg o Gaerdydd a Chasnewydd yn ne Cymru drwy Dwnnel Hafren yr holl ffordd i orsaf Paddington Llundain. Yn 134 mlwydd oed ac yn bedair milltir o hyd, mae gan Dwnnel Hafren amgylchedd heriol iawn. Caiff dros 14 miliwn galwn o ddŵr ei bwmpio allan ohono bob dydd gan orsaf bwmpio Sudbrook i atal llifogydd.



## Uwchraddio rheilffyrdd

Ym mis Awst y llynedd, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth becyn buddsoddiad gwerth £343 miliwn i reilffyrdd Cymru, a fydd yn uwchraddio seilwaith a gwella teithiau i deithwyr. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys £196 miliwn, a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru, ar gyfer Prif Linellau'r Cymoedd, £76 miliwn arall tuag at gwblhau'r gwaith o drydanu Twnnel Hafren, £5.8 miliwn i ddechrau dyluniadau ar gyfer uwchraddio Gorsaf Ganolog Caerdydd ac adfywio'r ardal ehangach, a £4 miliwn i ailagor Gorsaf Bow Street ger Aberystwyth.

**Mae'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer uwchraddio rheilffyrdd Cymru**, yn cynnwys:

- Cynyddu cyflymderau rheilffyrdd ar Reilffordd Liniaru'r De rhwng Caerdydd, Casnewydd a Chyffordd Twnnel Hafren, a fydd yn galluogi gwasanaethau ychwanegol i redeg a gwella amseroedd teithio.
- Lleihau amseroedd teithio ar Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru, drwy gynyddu cyflymderau rheilffyrdd rhwng Gogledd Cymru, Gogledd-orllewin Lloegr a chanolfannau mawr eraill y DU a gwella cysylltedd â HS2.
- Gwella capasiti ac amseroedd teithio ar y llwybr rhwng Caerdydd ac Abertawe, drwy gymysgedd o welliannau i'r seilwaith ac ymyriadau'r gwasanaeth.

**Bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi £2.7 miliwn i uwchraddio'r galluoedd signalu digidol ar reilffordd 241 cilometr y Cambrian**, sy'n rhedeg o Gyffordd Sutton Bridge yr Amwythig i Aberystwyth a Phwllheli. Bydd y system signalu digidol arfaethedig o'r radd flaenaf, yn moderneiddio'r rhwydwaith, gwella dibynadwyedd gwasanaethau a chefnogi cyflwyno fflyd newydd o drenau ar draws y rhwydwaith ym mis Rhagfyr 2022.



# **Rhan 4:** Cymru wrth wraidd Deyrnas Unedig ffyniannus

Mae Cymru yn sefyll yn gryf ac yn falch yn Undeb y Deyrnas Unedig - un o'r Undebau gwleidyddol hynaf a mwyaf llwyddiannus mewn hanes.

Undeb o draddodiadau, hanes a diwylliannau. Wedi'i gwau drwy'r canrifoedd ond eto'n arbennig ac unigryw. Mae Cymru yn swmp a sylwedd ei rhannau: modern, hynafol, diwydiannol a gwledig. Gwlad wedi'i ffurfio mewn tirwedd hynafol, lle mae'r pair o ddiwydiannau yn uno i greu cyfanwaith ehangach gydag iaith a llais ei hun.



## Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith frodorol hynaf Ynysoedd Prydain. Mae hefyd yn un o'r hynaf yn Ewrop. Ers 2011 mae'r iaith wedi cael ei gwarchod gan y gyfraith ac mae ganddi statws cydradd â'r Saesneg yng Nghymru.

**Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi'r iaith Gymraeg, yn cynnwys y nod o gyflawni 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw'r brif adran yn Whitehall ar gyfer hybu'r Gymraeg. Mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu'r defnydd o'r iaith mewn dadleuon cyhoeddus, yn cynnwys yn Nhŷ'r Cyffredin.

## Amddiffyn

Mae gan Gymru hanes milwrol maith. Mae milwyr, yn ddynion a merched o Gymru wedi gwasanaethu gyda dewrder ac anrhydedd ers cenedlaethau. Gall y Gatrawd Gymreig Frenhinol olrhain ei gwreiddiau yn ôl i ddechreuadau cynnar yn 1689 - mae ymhlith yr hynaf ym Myddin Prydain. Heddiw, mae gan y Fyddin, y Llynges Frenhinol, yr Awyrlu Brenhinol a'r milwyr wrth gefn 5,000 o aelodau yng Nghymru, a gefnogir gan filoedd o swyddi yn y diwydiant amddiffyn.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae nifer o filwyr, yn ddynion a merched wedi ymateb i her wahanol - gan chwarae rhan bwysig yn yr ymgyrch yn erbyn y pandemig. Maent wedi cefnogi a gwasanaethu'n anhunanol i amddiffyn ein cymunedau, gan helpu i drefnu a chynnal mwy na 60,000 o brofion a 10,000 o ymatebion ambiwlans.



## Ôl troed amddiffyn

**Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau'n ymrwymedig i gynnal ôl troed cadarn y Lluoedd Arfog yng Nghymru.**

Ym mis Ionawr, cadarnhaodd y Weinyddiaeth Amddiffyn y bydd Brigâd 160 a'i Phencadlys yn aros yn Aberhonddu. Bydd presenoldeb sylweddol y lluoedd arfog yn Sain Tathan yn cael ei gynnal. Mae'r Fyddin hefyd yn parhau'n ymrwymedig i adleoli uned Byddin Reolaidd o bwys, ac mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i archwilio'r opsiynau i leoli ail uned o bwys yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth y DU ymrwymiad parhaol i Lu Awyr Brenhinol y Fali ar Ynys Môn, sy'n gartref i holl hyfforddiant yr Awyrlu Brenhinol ac awyrennau cyflym y Llynges Frenhinol a channoedd o bersonél milwrol. Mae HMS Cambria yn gyfleuster newydd gwerth £11 miliwn ar gyfer y Llynges Frenhinol Wrth Gefn ym mae Caerdydd. Mae de-ddwyrain Cymru yn gartref i'r Asiantaeth Electroneg a Chydrannau Amddiffyn, sy'n cyflogi dros 400 o staff yn ei Chanolfan Ragoriaeth Afionig a Chydrannau a Chanolfan Fusnes ar safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sealand.

**Mae Llywodraeth y DU yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i greu Canolfan Ymchwil Uwch Dechnoleg ar safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sealand i ddatblygu clwstwr technoleg ac arloesedd bywiog sy'n alinio â thechnolegau newydd.**

## Y diwydiant amddiffyn yng Nghymru

Y diwydiant amddiffyn yw un o sectorau economi pwysicaf Cymru, yn darparu swyddi sy'n gofyn am sgiliau uchel a hybu arloesedd mewn technolegau o'r radd flaenaf. Ar gyfartaledd, mae mwy na £1 biliwn wedi cael ei fuddsoddi gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn niwydiant Cymru dros y tair blynedd diwethaf, gan gefnogi oddeutu 7,000 o swyddi'r flwyddyn.

Fel yr amlinellir yn yr Adolygiad Integredig, y Papur Gorchymyn Amddiffyn a'r Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a Diogelwch a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae ein gofynion amddiffyn yn dod yn fwyfwy soffistigedig.

**Gyda chefnogaeth buddsoddiad gan Lywodraeth y DU, mae Cymru wrth wraidd y gwaith o ddatblygu galluoedd amddiffyn y DU yn y dyfodol.**

Drwy fuddsoddiad gwerth £500 miliwn gan Lywodraeth y DU, mae canolfan atgyweirio fyd-eang ar gyfer yr awyren ymladd F-35 wedi cael ei sefydlu ar safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sealand ar Lannau Dyfrdwy. Mae cerbydau durblat 89 AJAX yn cael eu hadeiladu gan General Dynamics UK ym Merthyr Tudful ac mae system gyfathrebu newydd ar gyfer maes y gad yn cael ei datblygu yn ei ffatri yn Oakdale, prosiect gwerth £330 miliwn. Dyfarnwyd contract chwe blynedd, gwerth £82 miliwn i'r gweithgynhyrchwr amddiffyn Qioptiq, sydd wedi'i leoli yn Llanelwy, i gynnal cyfarpar targedu a gwyliadwraeth.

## Plismona a diogelwch cymunedol

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i leihau troseddu a'r niwed a achosa. Fel rhan o ymgyrch Llywodraeth y DU i gyflwyno 20,000 swyddog arall i luoedd yng Nghymru a Lloegr, **cafodd 437 o swyddogion heddlu eu recriwtio'r llynedd ac mae dyraniad ar gyfer recriwtio 297 arall eleni.**

Bydd y swyddogion ychwanegol hyn yn helpu i fynd i'r afael â throseddu a chadw cymunedau Cymru yn ddiogel.
Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn buddsoddi mewn lleihau trais difrifol, gyda £2.6 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu Uned Atal Trais De Cymru. Bydd yr Uned yn dwyn ynghyd gwasanaethau a phartneriaid allweddol i adnabod yr hyn sy'n sbarduno trais yn lleol a chytuno ar ymateb amlasiantaethol i hynny. A'r llynedd, derbyniodd Cymru yn agos at £1.8 miliwn gan y Gronfa Strydoedd Mwy Diogel, a gefnogodd amrywiaeth o ymyriadau lleol, tra cefnogodd y Gronfa Gwaddol Ieuenctid fuddsoddiad mewn darpariaeth i bobl ifanc.

## Chwaraeon

Mae gan Gymru dreftadaeth chwaraeon gyfoethog, yn enwedig fel un o genhedloedd rygbi mwyaf blaenllaw'r byd. Ym mis Tachwedd y llynedd, cyhoeddodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru y bydd pob un o'r 44 clwb yng Nghynghreiriau Cymru yn derbyn cymorth ariannol fel rhan o bartneriaeth unigryw â'r Loteri Genedlaethol.

Gwelodd y cyllid hwn, a hwyluswyd gan Lywodraeth y DU, gemau yn parhau i gael eu chwarae'r tu ôl i ddrysau caeedig, yn ystod cyfyngiadau Covid-19. Gall cynnal digwyddiadau chwaraeon proffil uchel helpu i feithrin a dathlu synnwyr o hunaniaeth a balchder a rennir ar draws pob un o bedair cenedl y DU yn sylweddol. Gyda hynny mewn golwg, **mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynnig ar y cyd rhwng y DU ac Iwerddon i gynnal Cwpan y Byd FIFA 2030, a fyddai'n gweld Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y twrnamaint.**





## Diwylliant

Mae darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus y DU yn cynnwys S4C - yr unig ddarlledwr iaith Gymraeg - yn chwarae rhan allweddol yn cefnogi a grymuso cymunedau Cymraeg eu hiaith ledled y DU.

Mae'r BBC, fel yr amlinellir yn ei gynigion 'The BBC Across the UK', yn bwriadu buddsoddi mewn newyddion lleol a datblygu gwasanaeth Radio Cymru 2. Mae ymrwymiadau fel y rhain yn cael eu cefnogi gan glwstwr creadigol newydd Caerdydd, sydd wedi tyfu 54% ers 2012. Bydd cymorth llwyddiannus Llywodraeth y DU i ddiwydiannau sgrin Cymru, yn cynnwys y rhyddhad treth ledled y DU ar gyfer meysydd ffilm, teledu proffil uchel, animeiddio a gemau fideo, ac yn fwy diweddar lansiad y cynllun peilot Cronfa Sgrin Fyd-eang gwerth £7 miliwn, yn cefnogi allforion sgrin y DU ac yn adeiladu cysylltiadau ar draws busnesau sgrin pob un o genhedloedd y DU.

Ymddengys y bydd 2022 yn flwyddyn o adfywio a dathliadau diwylliannol, yn dwyn pobl y DU ynghyd o amgylch digwyddiadau diwylliannol nodedig a gynhelir ym mhob rhan o'r DU, megis Jwbilî Platinwm Ei Mawrhydi'r Frenhines, Gemau'r Gymanwlad a Festival UK 2022*.

## Buddiannau Cymru wrth wraidd llunio polisïau Llywodraeth y DU

Mae'r Rhaglen Lleoedd ar gyfer Twf yn gweithio tuag at gyflawni amcan Llywodraeth y DU o adleoli 22,000 o rolau'r gwasanaeth sifil o Lundain i'r de-ddwyrain erbyn 2030.

Bydd Llywodraeth y DU yn hwyluso adleoli rolau i Gymru. Agorodd Canolfan Caerdydd (Tŷ William Morgan) ym mis Chwefror 2021.

Mae'r Ganolfan yn darparu canolbwynt clir i bresenoldeb Llywodraeth y DU ym mhrifddinas Cymru a bydd yn cynnal cyfarfodydd Cabinet y DU. Bydd Canolfan Caerdydd yn gartref i lu o adrannau Llywodraeth y DU sy'n ganolog i gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y Cynllun hwn. Yn y tymor hwy, byddem yn ceisio sicrhau cynrychiolaeth sylweddol yn y Ganolfan o bob adran bron a lledaenu presenoldeb Llywodraeth y DU ar draws Cymru yn ehangach.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i Gymru yn ehangach o'r Rhaglen Lleoedd ar gyfer Twf a'r rhaglen o Ganolfannau Llywodraeth y DU.

# Ymrwymiadau Llywodraeth y DU i Gymru hyd yn hyn

### Cefnogi twf drwy rymuso ein cymunedau

- Neilltuo £27 biliwn drwy'r Gronfa Codi'r Gwastad, Cronfa Adfywio Cymunedol y DU a Banc Seilwaith y DU er mwyn codi'r gwastad o ran cyfleoedd economaidd ar draws y DU i gyd.
- Wedi ymrwymo i sefydlu o leiaf un Porthladd Rhydd yng Nghymru cyn gynted â phosib.
- Datblygu Bargenion Dinesig a Thwf ledled Cymru, gyda chefnogaeth £791 miliwn.
- Archwilio, gyda phartneriaid rhanbarthol, y cyfle ar gyfer Porth y Gorllewin.
- Buddsoddi bron i £87 miliwn mewn 97 o brosiectau ymchwil a datblygu yng Nghymru.
- Buddsoddi hyd at £30 miliwn, yn amodol ar gymeradwyaeth, yn y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.
- Cefnogi diwydiant dur cynhyrchiol, bywiog a modern yng Nghymru.
- Cryfhau clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd Cymru, gyda chefnogaeth £25 miliwn.
- Cefnogi busnesau micro, bach a chanolig Cymru gyda £2.2 biliwn.


### Adeiladu'n ôl yn fwy gwyrdd: Cymru wrth wraidd yr ymgyrch i gyflawni sero net

- Arwain y ffordd o ran arloesedd sero net gyda £90 miliwn i brosiectau Cymru.
- Datgarboneiddio diwydiannau yn ne Cymru gydag ymrwymiad cyllido ar y cyd gwerth £40 miliwn.
- Treialu'r defnydd o hydrogen yn y sector trafnidiaeth fel rhan o brosiect Canolfan Hydrogen Caergybi gwerth £4.8 miliwn.
- Ehangu ynni gwynt ar y môr, gyda 2 gigawat o brosiectau posib oddi ar arfordir gogledd Cymru yn cael eu datblygu.
- Gweld ynni gwynt ar y môr arnofiol newydd, gydag Ystâd y Goron yn canolbwyntio ar brosiectau'r Môr Celtaidd sydd oddeutu 300 megawat o ran maint.
- Ystyried polisi yn gysylltiedig ag ynni tonnau a ffrwd llanw.
- Asesu safleoedd posib yng Nghymru a lleoedd eraill yn y DU i fod yn gartref i bwerdy asio ynni prototeip cyntaf y DU.



## Cymunedau wedi'u cysylltu'n dda

- Lansio'r Prosiect Gigabit gwerth £5 biliwn i gyflwyno band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit ledled y DU, yn cynnwys Cymru, gan ddechrau gyda £1.2 biliwn dros y pedair blynedd nesaf.
- Cyflwyno dros 1,800 o dalebau, gwerth £3.4 miliwn, i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol i ysgogi buddsoddiad mewn band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit yng Nghymru, a chysylltu 700 o safleoedd Cymru.
- Gwella signal ffôn symudol 4G gyda 109 o safleoedd, yn amodol ar gymeradwyaeth.
- Datblygu cynigion ar gyfer cysylltiadau trafnidiaeth trawsffiniol.
- Datblygu prosiectau gwella rheilffyrdd Cymru.
- Uwchraddio galluoedd signalu digidol ar Reilffordd y Cambrian gyda £2.7 miliwn.



## Cymru wrth wraidd Deyrnas Unedig ffyniannus

- Cefnogi'r nod o gyflawni 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Cynnal ôl troed cadarn y Lluoedd Arfog yng Nghymru.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i greu Canolfan Ymchwil Uwch Dechnoleg ar safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sealand.
- Datblygu galluoedd amddiffyn a diogelwch allweddol y DU yng Nghymru.
- Gwneud cais i gynnal Cwpan y Byd FIFA 2030, gyda Chymru yn chwarae rhan allweddol.
- Ychwanegu 437 at niferoedd yr heddlu yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, gyda 297 arall wedi'u neilltuo ar gyfer y flwyddyn i ddod, a buddsoddi mewn diogelwch cymunedol.